

Dug Cernyw/Rheolau Sefydlog

26 Chwefror 2021

Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 10 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

Gofynnaf am y wybodaeth a ganlyn:

1) *Pryd ddechreuodd yr adran o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymdrin â chydsyniad gyfeirio at 'Dug Cernyw' yn hytrach na 'Tywysog Cymru'?*

2) *Pwy wnaeth y penderfyniad hwn ar deitlau yn yr adran o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymdrin â chydsyniad?*

Rwy'n dyfynnu o'r ddogfen a ganlyn:

https://senedd.wales/NAfW%20Documents/Assembly%20Business%20section%20Documents/Standing_Orders/Clean_SOs.eng.pdf

Cafodd y Rheolau Sefydlog hyn eu cyflwyno yn 2006, pan gafodd y Senedd bwerau deddfu sylfaenol am y tro cyntaf. Cyfeirir at Ddug Cernyw yn hytrach na Thywysog Cymru oherwydd bod cydsyniad yn gysylltiedig â diddordebau preifat y Goron a Dugiaeth Cernyw. Caiff y Rheolau Sefydlog eu cytuno gan y Senedd.

Yn gywir

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN

Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth
Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, gofynnir ichi ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru neu'n ysgrifenedig i:

Senedd Cymru
Llywodraeth a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF